

DME: Prosiectau Rhwydwaith Mewnol yng Nghymru – Taflen Weithgaredd 1

Cyflwyniad

1. Ysgrifennwch y teitl **Cyflwyniad**
2. Rhowch ystyr i'r term 'Rhwydwaith Mewnol'.
3. Rhowch ystyr i'r term 'Rhwydwaith Mewnol Caled'; defnyddiwch enghreifftiau i'ch helpu chi esbonio.
4. Rhowch ystyr i'r term 'Rhwydwaith Mewnol Meddal'; defnyddiwch enghreifftiau i'ch helpu chi esbonio.
5. Lluniwch fersiwn eich hun o'r tabl isod, ond **rhestrwch** y prosiectau o'r swm isaf i'r swm uchaf.

Prosiectau Rhwydwaith Mewnol Rheilffyrdd	
Prosiect	Cost £ Biliwn
HS1	5.4
HS2	30
Crossrail 1	15.9
Crossrail 2	32
Trydaneiddio <i>Great Western</i>	5

6. Ewch ati i lunio graff addas i ddangos y costau ar gyfer y wahanol brosiectau uchod.
7. Esboniwch sut mae'r economi fel teisen, gyda rhwydwaith mewnol yn gwynhwysion iddi?
8. Yn meddwl am eich ateb i gwestiwn 7, ceisiwch esbonio'r ymadrodd, "oni fentwrch chi beth, nid enillwch chi ddim, oni heuir ni fedir".
9. Defnyddiwch HS2 fel enghraifft i'ch helpu esbonio mai £30 biliwn yw'r gost a gredir, ond mae disgwyl iddo ennill £42 biliwn o arian ychwanegol, yn ogystal â £27 biliwn mewn tocynnau dros gyfnod o 30 mlynedd.

Cefndir

9. Ysgrifennwch y teitl **Cefndir**
10. Defnyddiwch GIS fel Google Earth i ddod o hyd i fap o ardal wledig, a map o ardal ddinesig o'r un maint yr ydych yn adnabod yn dda iawn. Does dim rhaid i'r map fod yn gopi caled; gallech chi wneud hyn ar sgrîn.

11. Lluniwch dabl i restri'r wahanol fathau o rwydwaith mewnol caled gallwch weld ar y map. Ceisiwch ddod o hyd i o leiaf 12 yn yr ardal ddinesig, ac o leiaf 5 yn yr ardal wledig.

Rhwydwaith Mewnol Caled			
Ardal Ddinesig		Ardal Wledig	
1		1	
2		2	
3		3	
4		4	
5		5	
6		6	
7		7	
8		8	
9		9	
10		10	
11		11	
12		12	

12. Defnyddiwch ddiagram o'ch dewis chi er mwyn eich helpu chi ddisgrifio prif agweddau Rhwydwaith Mewnol Caled isod. Defnyddiwch enghreifftiau i'ch helpu eu disgrifio.


- Trafnidiaeth
- Tai
- Ynni
- Rheolaeth Dŵr
- Cyfathrebu
- Rheolaeth Gwastraff Solet

13. Defnyddiwch ddiagram o'ch dewis chi er mwyn eich helpu chi ddisgrifio prif agweddau Rhwydwaith Mewnol Meddal isod. Defnyddiwch enghreifftiau i'ch helpu eu disgrifio.

- Llywodraeth
- Economaidd
- Amaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd
- Gofal Iechyd
- Addysg ac Ymchwil
- Diwylliant, Chwaraeon ac Adloniant

14. Beth yw'r 'Pwerdy Gogleddol'?
15. Sut all y Pwerdy Gogleddol fod o fudd i ogledd Cymru, tybed?

16. Rhowch enghreifftiau o brosiectau rhwydwaith mewnol mawr yng ngogledd Cymru; defnyddiwch y rhifyn hwn, a hen rifynnau o *Ddaearyddiaeth yn y Newyddion* i'ch helpu.
17. Sawl Awdurdod Lleol y bydd yn rhan o Ddinas-Ranbarth Caerdydd?
18. Faint o arian cyhoeddus bydd Dinas-Ranbarth Caerdydd yn costio?
19. Disgrifiwch y Metro De Cymru bwriadol; defnyddiwch y map isod i'ch helpu:



20. Beth mae cynllun Metro De Cymru yn ei ddweud wrthyhych am bwysigrwydd trafniadaeth?
21. Beth yw ystyr y term 'tagfa' wrth ddisgrifio traffordd M4 ger Casnewydd?
22. Defnyddiwch fap lleol (naill ai map OS neu fap GIS fel Google Earth). Nodwch eich map yn gyntaf, drwy ddefnyddio lliwiau i ddynodi'r elfennau o rwydwaith mewnol sydd yn bodoli yn eich ardal chi.
23. Enwch y rhannau pwysig o rwydwaith mewnol sydd ar goll. Defnyddiwch eich gwybodaeth sylfaenol i wneud hyn. Crëwch restr yn nhrefn blaenoriaeth, gyda'r peth pwysicaf yn gyntaf.

DME: Prosiectau Rhwydwaith Mewnol yng Nghymru – Taflen Weithgaredd 1